

# Clwyf y Cyfresi 4 Brynley F. Roberts

## CYFRES Y BEDYDDWYR IEUAINC

(At wasanaeth ieuencid heddyw. Dan nawdd Undeb Bedyddwyr Ieuainc Cymru). Gol. D. Hopkins a R. S. Rogers, Gwasg Ilston, Abertawe, argraffwyr amrywiol. Pris 1/- neu 1/6, llyfrynau o tua 100 o dudalennau, ond hefyd rai pamffledi, pris 6c. a 1c.

1. Myfyr Hefin, Y Parch. Jones (*Muthetes*), 1921.
2. D Hopkin, Y Parch. R D Roberts, *Llewynhendy*, 1922.
3. T Valentine Evans, *Ieuan Ddu o Lan Tawy*, 1923.
4. Trefor Jones, *J Jones (Yr hen gloddwr)*, 1923.
5. Myfyr Hefin, *Ioan Emlyn*, 1924.
6. Hywel Cernyw Williams, *Cysegrleoedd Bedyddwyr Gogledd Cymru*, 1925.
7. D Emrys Evans, *Amserau'r Testament Newydd*, 1926.
8. J T Evans, *Crefydd yr Hen Destament*,
9. E K Jones, *Tystiolaeth Bedydd*, 6c.
10. Y *Llawlyfr*, 1c.
11. T Ellis Jones ac E K Jones, *Y Bedyddwyr ac addysg*, 1c.

Pamffledau Undeb Bedyddwyr Ieuainc Cymru, rhif 1. Ar y clawr fe ddywedir:

Ceisir adfer y pamffled fel ffurf lèn heddiw, canys y mae'r amseroedd yn galw am fynegi syniadau byw a llog mewn ffordd fer, glir a phendant. Hyderwn allu cyhoeddi nifer ohonynt ar bynciau crefyddol y dydd.

12. W R Watkins, *Llawlyfr Cenhadol*, 1/- Ni wn a fu rhagor o deitlau.

## PAMFFLEDAU I'R OES: DATHLIAD PUMED JIWBILI 1662.

Cyhoeddedig dros Bwyllgor Canolog Cynghrair Eglwysy Rhydd ac Efyngyllaidd Cymru gan y Parch. James Evans, BA, Aberavon-Port Talbot. (Yr oedd argraffwyr amrywiol i'r gyfres a chafwyd mwy nag un argraffiad o rai pamffledi).

Ymddengys eu bod oll wedi'u cyhoeddi rhwng Gorffennaf 1912 a diwedd y flwyddyn honno. Hysbyswyd rhagor o deitlau ond hyd y gallaf weld, nis cyhoeddwyd. Ceir hanes y dathliadau, anerchiadau ac adroddiadau arnynt yn James Evans, *Dylanwad Ymneilltuaeth ar Fywyd y Genedl*, Llanelli, 1913, lle y rhestrir hefyd y cyhoeddiadau.

Llyfryn 6c.

T Rees, *Hanes Ymneilltuaeth yng Nghymru*.

Pamffledyn 3c.

John Thomas, *Dydd Gŵyl Bartholomew 1662*

Pamffledi 1c.

Beriah Gwynfe Evans, *Y Ddwy Fil*.

M H Jones, *Howell Harris*.

D Stanley Jones, *Williams o'r Wern*.

Spinther, *Christmas Evans*.

D Lloyd George, *Yr Eglwys a chwestiynau cymdeithasol*.

R Gwylfa Roberts, *Y Gwyr fu yn y gadwyn*.

Dyfnallt, *Stephen Hughes, Apostol Sir Gaerfyrddin*.

W P Williams, *Egwyddorion Ymneilltuaeth*.

Gwilym S Rees, *Walter Cradoc a'i oes*.

James Morris, *Cysegr-leoedd Methodistiaid Cymru*.

E W Davies, *Cysegr-leoedd Bedyddwyr Cymru*.

Elfed, *Cysegr-leoedd Annibynwyr Cymru*.

H M Hughes, *John Penry, y merthyr Cymreig, 1559-1593*.

B Humphries, *John Myles a'i genhadaeth newydd*.

J Morgan Jones, *Daniel Rowland, Llan-geithio, 1713-1790*.

J T Griffiths, *Morgan John Rhys*.

J H Davies, *Y Crynwyr yng Nghymru*.

D Tecwyn Evans, *Morgan Llwyd o Wynedd*.

Gwili, *Y Ficer a'i Gannwyll*.

Thomas Hughes, *The history of 1662 and its lessons*.

David Davies, *When Puritans ruled*.

H D Phillips, *The Early Quakers in Wales*.

John Davies, *Howell Harris*.

W Edwards, *Christmas Evans*.

Ni welais y ddau nesaf hyn ond fe'u hysbysebwyd yn gyson:

John Clifford, *The State, the Church, and the Congregation*.

A Maclaren, *Religious equality in relation to national and religious life*.

## LLYFRAU CYMRAEG CYMDEITHIAS GENHADOL LLUNDAIN

O 1896 ymlaen am nifer o flynyddoedd cyhoeddodd Cymdeithas Genhadol Llundain fersiynau Cymraeg o'u cyfrolau 'gwobr' blynyddol. Y mae'n amlwg fod rhai wedi bod yn pwyso i gael y llyfrau darluniadol a deniadol (yn eu dydd) hyn yn Gymraeg, y cyfieithydd ei hun, fe ddichon, fel y byddai'r plant a oedd yn ddyfal yn casglu tros y genhadaeth yn cael derbyn 'gwobr-lyfr' yn eu mamiaith. Arbrawf oedd y gyfrol gyntaf, a phe na cheid ymateb digonol, nid oedd sicrwydd y byddai'r fenter yn parhau, fel yr eglurir yn y gyfrol gyntaf honno:

### Gair at yr Eglwysy Cymraeg

Anwyl Gyfeillion,

Wele o'r diwedd y gwobr-lyfr, y buwyd yn dadleu gymaint am ei gael yn Gymraeg, wedi gwneyd ei ymddangosiad. Hyderaf yn fawr bellach, y gwneir pob ymdrech i roddi gwybodaeth i'r plant am dano, ac yr anogir hwy i gasglu er ei sierchau, fel na siomer disgwyliadau neb o'r rhai fu yn selog drosto. Cofier mai ar brawf yr ydym y flwyddyn hon, ac yr ymddygir atom yn y dyfodol yn ôl y derbyniad a roddir i'r gyfrol brydferth hon. Os colledir y Gymdeithas drwy ei chyhoeddi, ni bydd gan neb sail resymol i achwyn, os gwrthodir dwyn allan gyfrol gyffelyb y flwyddyn nesaf.

Hydref 15ed 1896

(*Dyddiad rhagair y gwreiddiol yw Gorffennaf 30, 1896*).

Llwyddodd yr arbrawf a pharhaodd y gyfres hyd o leiaf 1915, a'r ddau fersiwn yn ymddangos fwy neu lai yr un adeg. Yr un diwyg a lluniau sydd i'r ddau. Cyfieithydd y cyfrolau cyntaf ('dros y gymdeithas Genhadol') hyd 1908 oedd Parch. L Williams, Bontnewydd, Sir Gaernarfon (na wn ddim amdano), a dilynwyd ef gan J Bodfan Anwyl. Parhaodd y Gymdeithas i gyhoeddi llyfrau Cymraeg, rhai'n gyfieithiadau ond nifer ohonynt yn rhai gwreiddiol, ond nid ydynt yn rhan o'r gyfres uchod ac y maent yn bur wahanol nid yn unig o ran diwyg ond hefyd yn eu

hymagwedd. Dyma'r cyfrolau y gwn amdanynt yn y gyfres.

George Cousins, gol., *Lloffion o Feusydd Lawer*, Llundain, Cymdeithas Genhadol Llundain, 1896 (*Gleanings from many Fields*, 1896).

Sarah Geraldine Stock, *Gwroniaid Cenhadol Affrica*, 1897 (*Missionary heroes of Africa*, 1897).

Mrs Arnold Foster, *Yn Nyffryn yr Yangtse*, 1899 (*In the valley of the Yangtse*, 1899).

R Wardlow Thompson, *Fy mordaith yn y 'John Williams'*, 1900 (*My trip in the 'John Williams'*, 1900).

Mary N Tuck, *Dwyrain a Gorllewin: yr hanes am flwyddyn genhadol*, 1901 (*East and West, the story of a missionary band*, [1901]).

Harry Johnson, *Hwyr a Boreu yn Affrica Dywyll*, 1902 (*Night and Morning in Dark Africa* [1902]).

R A Hickling, *Tom Ford, bachgen Prydeinig yn India Ddeheuol*, 1904 (*Tom Ford, a British boy in South India* [1903]).

Mary Isabella Bryson, *Croes a Choron: hanesion am y merthyron Chineaid*, 1905 (*Cross and Crown*, 1904).

Lewis Herman Gaunt, *Cymdeithion-Ysgol: Desgrifiadau o Amser-Ysgol ac Amser Chwarae yn y maes cenhadol*, 1906 (*School-Mates: Pictures of school-time and play-time in the Mission Field*).

Hopkyn Rees, *China, Chinaeg a Chineaid*, 1907. (Gwaith gwreiddiol Cymraeg, fe ymddengys)

Annie Sharman, *Ynys y Merthyron*, 1908 (*The martyrs' isle*, 1909).

Charles W Abel, *Bywyd Anwaraidd yn New Guinea*, [1901] (*Savage life in New Guinea*, [1901]).

Bernard Upward, *Meibion Han*, 1909 (*The sons of Han*, 1908). (Hwn yw'r cyntaf dan enw J Bodfan Anwyl).

Henry W Lester, *Pentrefi'r India*, 1910 (*Indian Village Pictures*, 1910).

W A Elliott, *Aur o'r Graig*, 1911.

Isaac H Hacker, *Kerala: Gwlad y Palmwydd*, 1912 (*Kerala: the Land of the Palms*, 1912).

Basil J Mathews, *Livingston y Llywybridd*, 1914 (*Livingston the Pathfinder*, 1912, 1913).

W P Naine, *Dewrgalon Papua*, 1915 (*Great Heart of Papua*, 1915).

Basil J Mathews, *John Williams y Saerlongau*, 1916 (*John Williams, the Ship builder*, 1915).

## Llyfr Cymraeg ar Ddeintyddiaeth

Bu copi o'r unig llyfr Cymraeg sy'n ymwneud yn benodol â deintyddiaeth ar werth ar y farchnad agored yn ddiweddar am y swm anrhydeddus o £400! Llyfr dwyieithog (71 tudalen) a argraffwyd gan J. K. Douglas, Bangor yn 1864 yw *The teeth* by Mr. Scott, dentist, Caernarvon. Deellir mai'r Llyfrgell Brydeinig a'i prynodd. Tybed a oes gan rywun ymlith darllenwyr *Y Casglwr* gopi o'r llyfr tra phrin hwn?

R. ELWYN HUGHES